# *Litani ein Hundod*

YR YDYM YN UN Â DAEAR DUW;
Y DDAEAR DDA
Y'N GWNAED NI OHONI.

DAEAR SY'N EIN BWYDO
A'N CARTREFI;
BLE MAE IESU'N CWRDD Â NI,
GAN RANNU EI HUN GYDA PHOB CNAWD:

Y DDAEAR – GRYM GALLWN WEITHIO GYDAG EF:
PRIDD AR GYFER TYFIANT, CERRIG I'W SAERNÏO,
GWRES O'R DYFNDER,

A DDAW'N GYSON DRWY RAS DUW.
MAE'R FAM DDAEAR WEDI CAEL EI CHAM-DRIN.
GARDD DUW WEDI EI HYSBEILIO.

MAE'R DDAEAR HON, YR YDYM YN RHAN OHONI
YN OCHNEIDIO AC YN GWEIDDI'N UCHEL,
AC MAE DUW YN CLYWED,
MAE DUW YN CLYWED.
BETH AMDANOM NI?

# *Litani ein Hundod*

YR YDYM YN UN AG AWYR DUW;
AWYR IACH I'W ANADLU,
AWYR OERBRAF SY'N EIN HAMGYLCHYNU:
YN Y RHODD O'R GOEDEN WERDD
A'R PLANHIGYN LLEIAF.

AWYR SY'N ANADL BYWYD
WRTH I YSBRYD DUW CHWYTHU
LLE MYNNO DUW.
YR YDYM YN UN AG AWYR DUW.

GRYM GALLWN WEITHIO GYDAG EF –
I DDOD A GOLEUNI AC EGNI
YN GYSON, DRWY RAS DUW.

YR AWYR SYDD YN SGRECHIAN YN AWR
YN ANGHYTBWYS AC YN WYLLT:
MISOEDD HEB GWMWL NA CHYSGOD RHAG YR HAUL
TANBAID;
MISOEDD O DDILYW DI-BAID.

# *Litani ein Hundod*

YR AWYR YN GOCH WRTH I'R DDAEAR LOSGI;
CORWYNT A THYMESTL.
ANADL Y DDAEAR, YN TAGU
GAN LYGREDD,
YN FWLL AC YN FYGLYD.

MAE'R AWYR YMA, RYDYM YN EI ANADLU,
YN OCHNEIDIO AC YN GWEIDDI'N UCHEL

AC MAE DUW YN CLYWED,
MAE DUW YN CLYWED.
BETH AMDANOM NI?

# *Litani ein Hundod*

RYDYM YN UN A THÂN DUW.
TÂN SY'N PURO AC YN ADNEWYDDU,
EI WRES YN EIN CYNHESU A'N BWYDO.
RYDYM YN DIBYNNU AR DÂN DUW.

GRYM GALLWN WEITHIO GYDAG EF,
YN GYSON, DRWY RAS DUW.
MAE'R TÂN, A HARNEISIWYD GENNYM
YN CARLAMU'N WYLLT DROS EIN TIROEDD,
YN DIFA AC YN DINISTRIO POPETH O'I FLAEN,

WEDI EI FWYDO GAN SYCHDER EIN DAEAR.
MAE'R TÂN YMA,
YN OCHNEIDIO AC YN GWEIDDI'N UCHEL

AC MAE DUW YN CLYWED,
MAE DUW YN CLYWED.
BETH AMDANOM NI?

# *Litani ein Hundod*

RYDYM YN UN A DŴR DUW
Y DŴR SY'N LLENWI EIN BYD
AC YN RHAN HANFODOL O'N GWNEUTHURIAD.
DŴR GLAW WEDI EI AILGYLCHU
ERS DECHRAU AMSER Y DDAEAR.

DŴR GLÂN, ADFYWIOL,
YN TRAWSFFURFIO, YN ERYDU, YN TODDI,
AC YN ADNEWYDDU'R DDAEAR
DRWY LAW A LLIF, RHEW A THIR GWLYB.
MAE BYWYD YN DIBYNNU AR DDŴR
SYDD A'I LAIS YN NHONNAU'R MÔR A RHEDIAD YR AFON,
YM MURMUR Y NANT A LLONYDDWCH Y LLYN,
DŴR – SY'N MARW.

WEDI EI DAGU A'I DDOGNI,
EI DDARGYFEIRIO A'I WASTRAFFU
GAN DRACHWANT A BUDREDDI.
DŴR SY'N BRIN; DŴR NAD YW'N ADDAS I'W YFED,
MAE'R DŴR YMA, EIN BYWYD,
YN OCHNEIDIO AC YN GWEIDDI'N UCHEL

AC MAE DUW YN CLYWED,
MAE DUW YN CLYWED.
BETH AMDANOM NI?

# *Litani ein Hundod*

WRTH I'R ELFENNAU SYDD YNOM
AC O'N CWMPAS
EIN CYHUDDO,
GOFYNNWN AM FADDEUANT,
Y MADDEUANT Y MAE IESU YN EI GYNNIG,

SY'N RHYDDHAU, YN ADNEWYDDU, YN CODI AC YN GRYMUSO
ER MWYN MYND I'R AFAEL A'R DRWG.

NID FYNNWN YMDRYBAEDDU MEWN EUOGRWYDD
SY'N ANABLU,
OND YN HYTRACH
GWEITHREDU'N YSTYRIOL.

GRIST, YMRWYMA NI,
HEDDIW, I DDECHRAU!
AMEN